**AC-09-02(p3)**

**Y Pwyllgor Archwilio**

**Dyddiad:** 19 Rhagfyr 2002
**Amser:** 09:15
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU: CANOLFAN Y CELFYDDYDAU GWELEDOL

*Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, ar ôl iddo gyflwyno'i adroddiad (05/02) ar 19 Mehefin 2002.*

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ddiolchgar am yr adroddiad hwn. Rydym yn cefnogi un ar ddeg argymhelliad y Pwyllgor Archwilio i Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn yr adroddiad. Roeddem yn falch nodi bod y Pwyllgor Archwilio yn cydnabod bod CCC eisoes wedi dysgu rhai gwersi a hoffem ychwanegu bod y Cyngor, cyn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ganolfan y Celfyddydau Gweledol, wedi sefydlu mesurau i atal problemau tebyg i'r rhai a brofwyd mewn perthynas â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol rhag digwydd eto gyda'i brosiectau loteri yn y dyfodol. Gwnaed y newidiadau hyn i'r gweithdrefnau asesu a monitro ym 1999.

Mae'r Cabinet yn ffyddiog bod gweithdrefnau'r Cyngor yn awr yn fwy trylwyr a'u bod yn ymateb i unrhyw anawsterau a all godi. Rhoddir y pwyslais ar atal anawsterau ond bod strategaethau ar gael i fynd i'r afael ag anawsterau pe bai'n rhaid. Bydd CCC yn ystyried ei weithdrefnau ymhellach yng ngoleuni'r adolygiad a gomisiynodd gan Deloitte Touche i ystyried ei weithdrefnau ar gyfer monitro grantiau. Bydd hefyd yn ystyried unrhyw argymhellion eraill a fydd yn deillio o'r adolygiadau a gaiff eu cynnal yn y dyfodol, megis yr Adolygiad Pum Mlynedd y flwyddyn nesaf ac adolygiad CCC ei hun o'i strwythur newydd ar ddiwedd y 12 mis cyntaf. Disgwylir cynnal yr adolygiad hwnnw yn ystod haf 2003.

Mae cyfarfodydd monitro chwarterol rhwng swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a CCC yn dal i gynnwys trafodaethau ar brosiectau loteri CCC. Mae hyn hefyd yn wir am y cyfarfodydd monitro ffurfiol, a gynhelir ddwy waith y flwyddyn, rhwng y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chadeirydd Cyngor y Celfyddydau. Rhoddir gwybod am unrhyw anawsterau ar unwaith.

Mae'r Cabinet yn cydnabod nad yw'n bosibl cael gwared ar bob math o risg yn llwyr, ond bod modd eu rheoli'n effeithiol. Rydym yn fodlon bod gan CCC weithdrefnau priodol yn eu lle yn awr a bod y rhain hefyd yn cael eu gweithredu. Byddwn yn gweithio'n glòs â'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol i atal yr hyn a ddigwyddodd i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol rhag digwydd eto; ac i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn dysgu o'r gwersi hyn.

Dyma ymateb manylach i argymhellion yr adroddiad.

**i) Fel rhan o'r adolygiad annibynnol y mae wedi'i gomisiynu o'i weithdrefnau, mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n archwilio pa mor ddigonol yw ei asesiad o risg mewn prosiectau loteri. Yn arbennig, dylai archwiliad trylwyr o'r prif risgiau sy'n allweddol i hyfywedd ariannol prosiectau, gan gynnwys nifer y bobl sy'n debygol o ymweld ag atyniadau celfyddydol newydd, fod yn rhan annatod o'r gwaith o asesu pob cais am arian loteri [35/i)]**

*Mae adolygiad annibynnol CCC ar ei weithdrefnau monitro grantiau, y mae wedi'i gomisiynu gan Deloitte Touche, i fod yn barod erbyn diwedd Gorffennaf. Bydd yr adolygiad yn ystyried ffyrdd haws o fonitro ceisiadau bach, trac cyflym i brynu offerynnau neu offer sy'n llai na £20,000. Er hynny, byddai'r prosiectau hynny yn y pegwn arall (prosiectau dros £100,000), prosiectau adeiladu fel arfer, yn cael eu monitro mewn modd llawer mwy gofalus a chynhwysfawr. Mae gweithdrefnau newydd ar gyfer asesu risg wedi bod yn eu lle ers 1999 (gweler Atodiad C yn adroddiad y Pwyllgor Archwilio). Caiff gweithdrefnau eu diwygio ymhellach fel bo'n briodol i roi ystyriaeth i ganlyniadau'r adolygiad annibynnol. Byddwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y canlyniad a'r camau a gymerwyd gan CCC.*

*Mae CCC yn penodi aseswyr allanol i werthuso pob prosiect loteri mawr (prosiectau dros £100,000 a rhai prosiectau o dan £100,000 os yw CCC yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol ar ôl ystyried y dadansoddiad risg a gaiff ei ddarparu gan yr ymgeisydd). Bydd yr aseswyr yn brofiadol ac yn gymwys i ddelio â'r prosiectau penodol i sicrhau eu bod yn hyfyw ac yn briodol. Caiff hyfywedd ariannol ei asesu fel rhan o'r cynllun busnes.*

**ii) CCC yn sicrhau bod cynlluniau wrth gefn digonol ar gael rhag ofn y daw'r risgiau i hyfywedd ariannol y prosiect yn realiti. [35/ii)]**

*Mae cynlluniau wedi bod yn eu lle ers 1999. Mae CCC wedi'i gwneud yn ofynnol bod "senarios" yn cael eu cynnwys yn y rhagolygon busnes ar gyfer cynllunio prosiectau unigol. Rhaid i ymgeiswyr nodi tri senario lle darperir cyllid ar y lefel uchaf bosibl, yn ail, lle gellid ei leihau 25 y cant ac yn olaf lle gellir ei leihau 50 y cant. Mae cynlluniau wrth gefn wedi'u seilio ar y senarios yma.*

**iii) Cadw nodiadau manwl ar ei ystyriaeth o faterion sylfaenol fel y berthynas rhwng tâl mynediad a nifer yr ymwelwyr mewn perthynas â phrosiectau y mae'n bwriadu rhoi arian loteri ar eu cyfer. [35/iii)]**

*Rhan o swyddogaeth aseswr CCC yw gwerthuso cynlluniau busnes, rhaglenni artistig a'r rhagolygon o ran y nifer a fydd yn ymweld â phrosiectau. Yn arbennig, bydd yr aseswr yn seilio'i adroddiadau prosiect ar faterion yn ymwneud ag hyfywedd, gan ddefnyddio'r rhagolygon gwreiddiol o ran niferoedd yr ymwelwyr a chan gyfeirio'n ôl atynt yn rheolaidd. Mae'r contract cyfreithiol yn ei gwneud hi'n hollol*

*ofynnol bod yn rhaid cyflwyno cynlluniau busnes diwygiedig, wedi'u dogfennu'n llawn, chwe mis cyn cwblhau'r gwaith yn ymarferol. Mae hyn yn rhoi cyfle i ystyried unrhyw anawsterau a ddaw i'r amlwg ac i ganfod atebion iddynt cyn i'r prosiect gael ei gwblhau. Mae'r broses hon yn awr yn digwydd yn awtomatig ac mae'r mecanweithiau hyn wedi bod yn eu lle ers 1999.*

*Mae'r gweithdrefnau ar gyfer penodi aseswyr allanol yn rhai trylwyr ac mae gan CCC yn awr garfan o arbenigwyr megis ymgynghorwyr busnes, rheolwyr lleoliad, rhaglenwyr a phenseiri y gellir ymgynghori â hwy. Mae'r broses o ddod i benderfyniad ynghylch nifer o brosiectau loteri yn awr wedi'i gohirio. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr fynd i'r afael ag anawsterau ac i roi eglurhad ar faterion sy'n cael eu codi yn fuan yn y broses. Rhoddir copi o adroddiad yr aseswr allanol hefyd i'r ymgeiswyr er mwyn cael eu hadborth.*

**iv) Asesu ei bolisïau cadw cofnodion cyffredinol i sicrhau bod cofnod digonol yn cael ei gadw o benderfyniadau a thrafodaethau allweddol y Cyngor ynghylch prosiectau loteri. [35/iv)]**

*Ers 1999, mae hyfforddiant staff yn cynnwys y gofyniad bod yn rhaid cadw cofnodion o holl brosiectau CCC a bod yn rhaid eu harchwilio'n rheolaidd. Mae CCC hefyd yn symud tuag at sefyllfa lle y gall gael copïau electronig o'r ffeiliau ac mae am fuddsoddi ym maes technoleg i wneud hyn yn bosibl. Mae ffeiliau CCC yn cael eu monitro a'u hadolygu i sicrhau bod camau dilynol yn cael eu cymryd.*

**v) Monitro'n fanwl unrhyw newidiadau i natur yr atyniadau sydd i'w cynnig gan brosiectau y mae'n rhoi arian loteri ar eu cyfer, er mwyn sicrhau bod canlyniadau refeniw posibl newidiadau a gyflwynir ar ôl i grantiau loteri gael eu cymeradwyo yn cael eu harchwilio'n briodol. [35/v)]**

*Mae'r ymgeisydd wedi'i rwymo'n gyfreithiol i hysbysu CCC o unrhyw newidiadau arfaethedig i bwrpas y prosiect. Mae'n rhaid i CCC gymeradwyo'r cynigion hyn cyn y gellir eu rhoi ar waith. Dylai CCC felly ymatal rhag talu neu gychwyn gweithdrefnau adfachu os na lynir wrth yr amodau. Mae CCC yn ymweld â safleoedd yn rheolaidd ac mae hynny'n gyfle i CCC drafod unrhyw bryderon ac i holi'r ymgeisydd. Mae swyddogion CCC neu rai sy'n monitro prosiectau yn allanol yn ymweld â phrosiectau'n gyson (o leiaf pob chwarter). Mae'r gweithdrefnau hyn wedi bod ar waith ers 1999.*

**vi) Nid yn unig yn tynnu sylw'r ymgeisydd at y gwendidau a nodir gan ei aseswr annibynnol ond ei fod, fel rhan o'i waith yn monitro'r prosiect, yn cymryd camau cadarnhaol a chynnar i sicrhau bod yr ymgeisydd wedi mynd i'r afael â'r pryderon hyn. [35/vi)]**

*Fel rhan o'r gweithdrefnau asesu, rhoddir copi o adroddiad yr aseswr (heb y casgliadau) i'r ymgeisydd - mae'n rhaid iddynt roi gwybod i CCC p'un a yw'r adroddiad yn ffeithiol gywir ai peidio. Mae hyn yn caniatáu i'r ymgeisydd gymryd camau i gyflwyno newidiadau er mwyn cael gwared ar unrhyw broblemau neu wendidau. Mae gan yr ymgeisydd wythnos i egluro unrhyw faterion eraill a gafodd eu codi gan yr aseswr. Caiff y sylwadau hyn eu trosglwyddo wedyn i'r Pwyllgor Cyfalaf i'w hystyried ymhellach.*

*Er nad oedd unrhyw gytundeb ariannu refeniw ffurfiol rhwng CCC ac Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd mewn perthynas â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol, mae'r rhain, ers Ebrill 2002, wedi cael eu cyflwyno ar gyfer pob cleient refeniw a loteri.*

**vii) Adolygu ei drefniadau archwilio er mwyn sicrhau bod yr angen am eitemau fel offer TG yn cael ei gydnabod yn llawn a'i gostio'n iawn pan fo cais yn cael ei gyflwyno am arian loteri. [35/vii)]**

*Aethpwyd i'r afael â hyn yng ngweithdrefnau newydd CCC ym 1999. Mae ymgeiswyr yn cyflwyno cynllun cost sy'n cael ei adolygu gan y maintfesurydd a'r aseswr artistig i sicrhau bod y manylion a'r costau yn briodol ar gyfer pob prosiect. Mae CCC hefyd yn ystyried newid ei weithdrefnau ar gyfer gwneud cais i fynd i'r afael â chynnydd yng nghostau prosiectau yng ngham D; mae CCC yn cynllunio proses dau gam a fydd yn cadw at amcangyfrifon cost mwy cywir ar gyfer Cam D ac E cyn bod penderfyniad mwy terfynol yn cael ei wneud ar y prosiect. Mae hwn yn faes cymhleth ac mae CCC yn trafod y cynigion gyda phenseiri a maintfesurwyr. Bydd cynigion drafft ar gael erbyn Hydref 2002 ac mae CCC yn bwriadu ymgorffori'r newid hwn ym mhob prosiect erbyn Rhagfyr 2002.*

**viii) Sicrhau, ar gyfer unrhyw brosiect o'r maint hwn, bod y cynllun busnes yn cynnwys proses asesu risg llawn ynghyd â chynlluniau wrth gefn realistig sydd wedi'u datblygu'n llawn. [35/viii)]**

*Ers 1999, ynghyd â'r gofynion am senario wrth gefn a nodir yn 35/ii, mae CCC wedi gofyn am gofrestr risg ar gyfer elfen adeiladu'r prosiect.*

**ix) Rhoi ar ddeall i ymgeiswyr sy'n llwyddo i gael arian loteri, ar ddechrau pob prosiect, na ddylent newid y cynlluniau gwreiddiol heb hysbysu'r Cyngor yn llawn ymlaen llaw. [35/ix)].**

*Mae'r contractau cyfreithiol y mae ymgeiswyr llwyddiannus yn eu llofnodi yn eu rhwymo fel nad oes modd iddynt wyro oddi wrth y cynlluniau gwreiddiol oni bai eu bod wedi cael caniatâd y Cyngor. Mae'r weithdrefn hon hefyd wedi bod yn ei lle ers 1999. Fel rhan o'r broses fonitro, gwneir yn siwr bod rhestr ar gael a bod y rhestr yn cael ei gwirio'n drylwyr gan aseswr CCC. Eto, pe na bai'r ymgeisydd yn dilyn y drefn hon gallai CCC ddal arian yn ôl neu ei adfachu.*

**x) Datgan yn glir, ar ddechrau pob prosiect, pa wybodaeth ddylai'r ymgeisydd am arian loteri ei darparu a pha mor aml y dylid darparu'r wybodaeth honno. Dylai'r gofynion hyn gael eu nodi mewn cytundeb cyfreithiol rwymol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r ymgeisydd. Os nad yw ymgeisydd yn glynu wrth y gofyniad hwn, yna dylid dal yr arian yn ôl. [35/x)]**

*Mae CCC eisoes wedi bod yn gwneud hyn ers 1999 ac mae'r contractau'n ei gwneud yn glir bod modd dal yr arian yn ôl neu adfachu'r arian. Er hynny, mater o farn fydd pryd y dylid dal arian yn ôl. Gall dod â phrosiect i ben yn ddirybudd arwain yn aml at fwy o gostau - er enghraifft, os yw contractwyr yn terfynu'u contract. Caiff holl gofnodion Cyfarfodydd Misol y Tîm Dylunio eu trosglwyddo i CCC a chânt eu hadolygu gan fonitor allanol y prosiect.*

**xi) Adolygu ei weithdrefnau er mwyn sicrhau bod camau prydlon yn cael eu cymryd i ddiogelu unrhyw fuddiant sydd ganddo mewn unrhyw asedau sy'n weddill pan fo prosiect sydd wedi derbyn arian loteri yn methu. [35/xi)]**

*Pe bai problemau tebyg i'r rhai a brofwyd mewn perthynas â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol yn codi yn y dyfodol, byddai CCC yn penodi archwilydd ar unwaith.*

*Mae cytundebau ariannu rhwng CCC a'i gleientiaid yn awr yn nodi'n gliriach bod ad-dalu/adfachu grant yn opsiwn (neu o leiaf ganran pro-rata ohono neu'r elw a wneir wrth werthu'r adeilad). Ers 1999, mae CCC yn cofnodi pob adeilad sy'n rhan o bob prosiect cyfalaf mawr fel cost. Fel sy'n gyffredin gydag eraill sy'n dosbarthu grantiau, mae buddiant CCC mewn offer yn dod i ben ar ôl 5 mlynedd oherwydd y gostyngiad yn eu gwerth. Mae gan CCC yr holl weithdrefnau cyfreithiol yn eu lle i ddiogelu ei fuddiant mewn unrhyw asedau sy'n weddill ond mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i dynhau'r rhain. Mae CCC yn y broses o newid ei weithdrefnau i sicrhau bod rhestrau yn cael eu llunio ac amseriad gwaredu asedau yn cael ei nodi ar unwaith os bydd prosiect yn methu. O dan drefniadau 1999, bydd rhestrau ar gael yn barod, a phe bai prosiect yn methu, byddai'n rhaid edrych ar y rhestr ar unwaith i weld beth sydd yno. Ni wnaed hyn yn achos Canolfan y Celfyddydau Gweledol.*